



Nodyn o'r cyfarfod

Cyfeirnod ffeil	EN020015 a EN010007
Prosiect	Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a Phrosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
Statws	Terfynol
Awdur	Kay Sully
Dyddiad	26 Medi 2017
Cyfarfod â	Cyngor Sir Ynys Môn
Lleoliad	Temple Quay House, Bryste
Yn bresennol	Yr Arolygiaeth Gynllunio Pauleen Lane – Rheolwr Grŵp (trwy delegynadledda) Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith Simone Wilding – Pennaeth Gwaith Achos Mawr Kay Sully – Rheolwr Achos Tracey Williams – Rheolwr Achos Steffan Jones – Rheolwr Achos Cyngor Sir Ynys Môn Dylan Williams – Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Gareth Hall – Ymgynghorydd Kath Haddrell – Swyddog Arweiniol Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Cysylltiad Gogledd Cymru
Amcanion y cyfarfod	Trafod trefniadau ar gyfer archwilio prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a phrosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa newydd a gynigir
Cylchrediad	Yr holl fynychwyr

Crynodeb o bwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd

Cyflwyniad

Cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r Cyngor (neu eraill) ddibynnu arno.

Diweddariad lleol ar y ddau brosiect

Rhoddodd y Cyngor ddiweddariad i'r Arolygiaeth ar ei waith yn ddiweddar wrth baratoi ar gyfer y datblygiadau a gynigir gan ddefnyddio'r Cytundebau Perfformiad Cynllunio a osodwyd yn eu lle gyda Horizon a'r Grid Cenedlaethol hyd at fis Mai / Mehefin 2019.

Etholwyd Cyngor newydd ym mis Mai ac mae rôl portffolio caniatadau mawr yn cael ei chreu ym mis Hydref 2017 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn rôl wleidyddol sy'n canolbwyntio ar effeithiau a materion yn ymwneud â'r ddau brosiect. Hefyd, yn ddiweddar, mabwysiadodd Ynys Môn Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar y Cyd â Gwynedd, a hwn yw'r CDLI ar y Cyd cyntaf yng Nghymru.

Dywedodd y Cyngor, er bod cefnogaeth gyffredinol yn Ynys Môn ar gyfer prosiect Wylfa, mae pryderon ynghylch effeithiau adeiladu, strategaeth llety'r gweithwyr a chyfluoedd sgiliau a chyflogaeth lleol. Er bod y Cyngor yn deall bod angen y cysylltydd, ac mae'n gwbl ymrwymedig i gefnogi'r ddau brosiect wrth eu harchwilio, nid yw'n cefnogi cynnig y Grid Cenedlaethol am linell foltedd uchel uwchben ychwanegol ar yr un llwybr â'r llinell bresennol ac mae'n cynnig gosod y cyfan o dan y ddaear.

Trafododd yr Arolygiaeth a'r Cyngor yr Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais Cam 3 (PAC3) a gynhaliwyd gan Horizon ar gyfer Wylfa. Dywedodd y Cyngor fod hon yn amserlen heriol i'w bodloni, er ei fod yn cydnabod ymdrechion Horizon i gyflwyno dogfennau cyn y cyfnod ymgynghori. Roedd llawer iawn o ddeunydd gyda manylion cyfyngedig. Teimlent nad oedd digon o fanylion yn yr ymgynghoriad PAC3, a oedd yn ymddangos fel petai'n canolbwyntio ar y newidiadau / gwahaniaethau o gymharu â PAC 2, tra bod pobl yn disgwyl gweld rhagor o fanylion. Nododd yr Arolygiaeth fod adborth gan bartion statudol eraill wedi codi pryderon tebyg ac y byddai hyn yn cael ei fynegi i'r Ymgeisydd.

Dywedodd y Cyngor wrth yr Arolygiaeth fod rhanddeiliaid lleol wedi codi pryderon ynghylch peidio â bod yn rhan lawn o'r broses, megis Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y gall y Cyngor gynnwys unrhyw sylwadau y byddant yn eu derbyn yn eu hymateb ar y dogfennau drafft. Esboniodd y Cyngor fod Cynghorau Cymuned a effeithir gan gynnig Wylfa Newydd wedi ffurfio "Partneriaeth Gogledd Ynys Môn". Mae Horizon wedi cytuno i lunio adroddiad asesiad effaith ar y gymuned lle bydd yr holl wybodaeth berthnasol o asesiadau gwahanol ar gael mewn un man i drigolion lleol, er hwylustod cyfeirio.

Dywedodd yr Arolygiaeth ei bod yn annog datblygwyr, pan fyddant yn cyflwyno dogfennau fel rhan o'r archwiliad, i dynnu sylw at y materion allweddol o fewn y ddogfen honno trwy lythyr esboniadol sy'n rhestru'r holl faterion / cynnwys. Ceir derbyniad da i lunio dogfennau â chrynodebau gweithredol sy'n gosod arwyddion fel hyn ar gyfer pob dogfen allweddol, e.e. yn achos Prosiect Cysylltiad Richborough. Fel hyn, dylai unrhyw un sy'n dymuno adolygu'r ddogfennaeth allu gweld beth mae'r ddogfen yn ei gynnwys cyn ei lawrlwytho ac ati, gan helpu i leihau'r amser a gymerir o ran cael mynediad i'r deunydd.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth y Cyngor ei bod yn adolygu cyfres o ddogfennau drafft Horizon ar hyn o bryd a bod cyfarfod ym mis Hydref wedi'i drefnu i ddarparu adborth. Bydd nodyn o'r cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar dudalen prosiect yr Arolygiaeth. Cadarnhaodd y Cyngor yr anfonwyd dogfennau drafft ato hefyd i'w hadolygu gyda

chyfnod adolygu o wyth wythnos. Cyfeiriodd y Cyngor at dderbyn dogfennau drafft cyfyngedig gan y Grid Cenedlaethol.

Gwaith Ffyrdd

Dywedodd y Cyngor wrth yr Arolygiaeth bod ceisiadau Horizon o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref gyfer gwelliannau all-lein i ffyrdd a gwaith paratoi safleoedd yn debygol o gael eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2017. O'r dogfennau drafft, mae'n ymddangos bod Horizon yn bwriadu, hyd yn oed os bydd caniatâd ar gyfer gwaith paratoi'r safle yn cael ei roi o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, y bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys hefyd yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r Cyngor edrych ar [Nodyn Cyngor 15](#) (drafftio Gorchymynion Caniatâd Datblygu) a luniwyd ar y cyd ag adrannau cydsynio ar gyfer Gorchymynion Caniatâd Datblygu, sydd, felly, yn adlewyrchu eu safbwyntiau.

Cyflwyno cais

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth a'r Cyngor eu bod yn deall y bydd y Ceisiadau, fel y mae materion yn bodoli ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno yn Ch1 2018. Bydd yr Arolygiaeth yn cynghori'r Ymgeiswyr i sicrhau ymgysylltiad â'i gilydd a'u rhanddeiliaid fel y bydd pawb sy'n ymwneud â'r mater yn parhau i fod â'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch dyddiadau cyflwyno tebygol, a byddant yn gallu cynllunio eu hadnoddau yn unol â hynny.

Anogwyd y Cyngor gan yr Arolygiaeth i ddefnyddio'r amser yn ystod y cyfnod cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol i wneud llawer o'r gwaith sydd i'w gyflwyno yn ystod yr archwiliad. Bydd y llythyr gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ('llythyr Rheol 6') yn cynnwys asesiad cychwynnol o brif faterion yr Awdurdod Archwilio ac amserlen ddrafft ar gyfer yr archwiliad. Awgrymodd yr Arolygiaeth y dylai'r Cyngor edrych ar lythyrau Rheol 6 eraill a gyhoeddwyd i gael syniad o'r hyn y bydd yn ei gynnwys.

Cadarnhaodd y Cyngor fod ganddo gynllun dirprwyo drafft wedi'i baratoi, felly os bydd terfyn amser ar gyfer cyflwyno yn disgyn y tu allan i gyfnod adrodd pwyllgor, bydd yn parhau i allu bodloni hyn. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen tuag at gymeradwyo'r cynllun dirprwyo mewn cyfarfod y Cyngor llawn sydd i ddod.

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Gofynnodd y Cyngor a oedd unrhyw enghreifftiau da o adroddiadau ar yr effaith leol. Dywedodd yr Arolygiaeth fod tri ohonynt wedi'u hamlygu ar y [wefan Seilwaith Cenedlaethol](#), gydag esboniad byr o'r rheswm pam y maent yn cael eu hystyried yn enghreifftiau da.

Mae [Nodyn Cyngor 1](#) hefyd yn rhoi awgrymiadau cyffredinol a chyngor ar arfer da ar gyfer paratoi Adroddiad ar yr Effaith Lleol. Gan fod y Ddeddf Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i Adroddiad ar yr Effaith Lleol, mae hyn yn rhoi cyfle pwysig i'r Cyngor osod allan y materion y mae'n eu hystyried yn fwyaf pwysig i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried hefyd.

Felly, mae awgrymiadau allweddol ar gyfer llunio Adroddiad ar yr Effaith Leol effeithiol yn cynnwys:

- rhestr gynhwysfawr o'r materion allweddol;
- strwythur da sy'n hawdd ei ddefnyddio;
- cyflwyniad clir o'r holl faterion cynllunio ac amgylcheddol allweddol; a
- digon o dystiolaeth i gyfiawnhau (cyfeirio at ddogfennau perthnasol).

Amserlennu

Gofynnodd y Cyngor a fyddai'n gallu dylanwadu ar amserlenni'r Awdurdod Archwilio er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor a Chyngor Gwynedd a chyrff cyhoeddus eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ymdopi â dau archwiliad sy'n gorgyffwrdd. Sicrhawyd y Cyngor gan yr Arolygiaeth ei bod yn gweithio'n ymwybodol gan gadw hyn mewn golwg, ac y bydd yn gwneud pob ymdrech i osgoi unrhyw wrthdaro o ran terfynau amser neu wrandawiadau pwysig er mwyn lleihau'r baich ar yr holl gyfranogwyr.

Dywedodd yr Arolygiaeth, er na fyddai'r Awdurdod Archwilio'n gallu ymgynghori'n uniongyrchol â'r Cyngor ar ddrafftio'r amserlen, bydd ganddo'r cyfle i godi unrhyw faterion mewn perthynas ag amserlen ddrafft yr Awdurdod Archwilio mewn ymateb i'r llythyr Rheol 6 a / neu yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Os bydd yr Arolygiaeth yn ymwybodol yn gynnar o unrhyw ddyddiadau pwysig y dylai'r archwiliadau eu hosgoi, bydd yn cymryd hyn i ystyriaeth, ac awgrymwyd y byddai o gymorth pe bai'r Cyngor yn gallu rhoi gwybod i'r rheolwr achos am ddyddiadau o'r fath.

Pwysleisiodd y Cyngor bwysigrwydd cynnal holl sesiynau Gwrandawriad Wylfa Newydd ar yr Ynys, gyda gwrandawriad 'effeithiau lleol' penodol yng Ngogledd Ynys Môn yn gynnar yn y rhaglen. Hefyd, pwysleisiwyd y disgwyliad y bydd 80-90% o sesiynau Gwrandawriad Cysylltiad Grid Gogledd Cymru yn cael eu cynnal ar yr Ynys hefyd. Cytunodd y Cyngor i anfon ffotograffau o'r Neuadd Goffa (Amlwch) at yr Arolygiaeth.

Unrhyw fusnes arall

Dywedodd yr Arolygiaeth fod ei gwefan yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg erbyn hyn, felly gellir gweld tudalennau prosiect Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru yn Gymraeg, a byddai'r Arolygiaeth yn croesawu unrhyw adborth a fyddai gan y Cyngor ynghylch cynnwys y wefan.

Cyfeiriodd y Cyngor at ddeddfwriaeth newydd Llywodraeth Cymru ar lesiant, a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol, a holodd ynghylch ei pherthnasedd i'r broses o ganiatáu Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Amlinellodd yr Arolygiaeth y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu ar y pwysau a roddir i wahanol ddeddfwriaeth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y bydd Cyngor Ynys Môn yn cadw mewn cysylltiad â'r Arolygiaeth ynglŷn â datblygiad y ddau gais a gynigir. Cytunwyd i drafod cynnydd ym mis Rhagfyr 2017. [Nodyn ar ôl y cyfarfod: trefnwyd y cyfarfod ar gyfer 18 Ionawr 2017]